



Annwyl Riant / Warcheidwad

YSGOL GYMRAEG BRO OGWR: CLWB BRECWAST

Gweithdrefnau Clwb Brecwast:

- 1) Sylwch nid oes unrhyw trefniadau trafndiaeth ar gael i gludo plant i'r clwb brecwast. Ni chaniateir i rieni / gofawyr barcio / gollwng ar dir yr ysgol oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch a thrafnidiaeth. Dylai rhieni / gofawyr barcio y tu allan i'r ysgol a cherdded eu plentyn / plant i mewn trwy giât y brif fynedfa i gerddwyr. **NI FYDD** giat Princess Way ar agor ar gyfer Clwb Brecwast.
- 2) Bydd mynediad i'r clwb brecwast yn neuadd yr ysgol trwy'r giât y brif fynedfa i gerddwyr, gan ddilyn ein system un ffordd ar draws yr iard at ddrws **prif fynedfa'r ysgol**, lle bydd aelod o staff ar ddyletswydd i arwyddo'r plant i mewn. Yn ddieithriad, rhaid i blant fewngofnodi gan riant / gofawr ac ni fyddant yn cael eu derbyn os nad oes neb yn gofalu amdanynt.
- 3) Rhaid i ddisgyblion gael eu llofnodi i mewn yn union ac yn brydlon rhwng 8:10yb ac 8:30yb (ni fydd plant sy'n cyrraedd ar ôl 8:30yb yn cael eu derbyn a bydd y rhieni / gofawyr yn gyfrifol am y plant nes bod aelodau staff ar yr iard yn 8:50yb, yn unol â'r trefniadau dechrau dydd arferol).
- 4) Bydd brecwast iach (tost, ffrwythau, grawnfwyd a sudd, llaeth neu ddŵr) yn cael ei gynnig. Bydd plant yn cael eu goruchwyllo gan staff a chyflogwyd gan y Gwasanaethau Arlwyio tan ddechrau'r diwrnod ysgol, gan aros yn neuadd yr ysgol trwy gydol y sesiwn clwb brecwast (cyfleusterau toiled ar gael wrth ymyl neuadd yr ysgol).
- 5) Gofynnir i bob plentyn olchi dwylo wrth gyrraedd. Bydd y plant yn eistedd o fewn eu grwpiau blwyddyn, gyda phob bwrdd ar wahân i'w gilydd er mwyn cadw pellter cymdeithasol a chadw at ein grwpiau cyswllt ysgol. **Ni fydd** brodyr a chwiorydd yn eistedd gyda'u gilydd.
- 6) **Mae gennym nifer cyfyngiedig er mwyn galluogi ni i ddilyn canllawiau pellter cymdeithasol a grwpiau cyswllt a'r nifer o oedolion yn y neuadd.**

Mae'n bwysig nodi yn ôl canllawiau'r awdurdod lleol bydd y sesiynau brecwast am ddim ar gael i blant oed statudol yn unig a nid yw hynny'n cynnwys plant Meithrin. Mae hyn oblegig rhifau goruwchwylyr a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Os hoffech i'ch plentyn / plant fynychu sesiynau brecwast am ddim, a wnewch chi ebostio swyddfa'r ysgol (admin.broogwr@bridgend.gov.uk) i ofyn am gopi electroneg o'r ffurflen. Bydd angen gwblhau'r ffurflen a'u dychwelyd i swyddfa'r ysgol ar gyfer prosesu. Dangosir pa ddiwrnodau a ddewisir ar y ffurflen – rhaid cadw at y diwrnodau penodol yma i sicrhau rydyn yn cadw at y nifer all fynychu. Oherywd mae gennym nifer cyfyngiedig yn y neuadd bydd llefydd yn cael eu rhoi ar sail trefn derbyniwyd y ffurflenni.

Cofion gorau

Sharon Jayne
Pennaeth

Nik Dart
Cadeirydd y Llywodraethwyr